CEFNOGAETH CWMNI

CANLLAWIAU 2018

ffilm CYMRU WALES

CEFNOGAETH CWMNI

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ar gyfer datblygu ffilm yng Nghymru.

Mae arian Cefnogi Cwmni Ffilm Cymru wedi ei anelu at gwmnïau cynhyrchu ffilm sydd wedi eu lleoli yng Nghymru ac sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ffilmiau nodwedd o unrhyw genre.

Mae dwy haen i'n harian Cefnogi Cwmni:

HAEN 1

Dyfarniadau o hyd at £6,000, nad oes angen eu had-dalu, i'w defnyddio tuag at waith ymgynghorol a/neu fentoriaeth arbenigol i gwmnïau nad ydynt wedi arwain ar y gwaith cynhyrchu ar ffilm nodwedd hyd yma, ond bod eu cynlluniau busnes yn cynnwys ymrwymiad hyfyw at ffilmiau nodwedd.

HAEN 2

Benthyciadau ffafriol o hyd at £75,000 i gwmnïau sydd wedi arwain ar y gwaith cynhyrchu ar ffilm nodwedd, ac sydd wedi sefydlu eu presenoldeb yng Nghymru.

Mae Ffilm Cymru wedi ymrwymo i ehangu sector ffilm amrywiol a chynaliadwy sy'n gweithio i bawb ledled Cymru. 'Rydym yn gosod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad wrth galon ein gwaith; 'rydym yn eiriol ar ran mentergarwch; ac yn hybu Safon BS8909, sy'n cefnogi diwydiant ffilm sy'n amgylcheddol gyfeillgar.

Ni ellir cefnogi costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig i ddatblygu neu gynhyrchu cynnwys drwy'r gronfa hon; yn hytrach, mae ar gael i'ch cynorthwyo i feddwl yn strategol ynglŷn â sut allwch chi ddatblygu eich cwmni. Byddwch mor garedig â chyfeirio at ein harian datblygu neu gynhyrchu os ydych yn chwilio am gefnogaeth ar gyfer prosiect penodol.

PWY ALL YMGEISIO?

HAEN 1 - DYFARNIADAU YMGYNGHORI & MENTORA

Gallwch ymgeisio am arian Cefnogi Cwmni Haen 1 os:

- Ydych chi wedi sefydlu cwmni cynhyrchu sydd wedi cofrestru yn Lloegr a Chymru ac sydd a'i brif swyddfa yng Nghymru;
- Mai chi yw Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr y cwmni hwnnw;
- Yw eich cwmni'n canolbwyntio ar ffilm nodwedd o unrhyw genre;
- Ydych wedi gweithio ym maes cynhyrchu teledu neu ffilm am o leiaf dair blynedd.

HAEN 2 - BENTHYCIADAU CWMNI

Gallwch ymgeisio am arian Cefnogi Cwmni Haen 2 os ydych yn diwallu'r uchod a hefyd os:

- Ydych chi wedi arwain ar y gwaith cynhyrchu ar o leiaf un ffilm nodwedd a gafodd ei rhyddhau mewn theatrau;
- Yw eich cwmni eisoes yn ariannol hyfyw ond eich bod hefyd yn barod i gynyddu'r gallu cynhyrchu, ac yn berchen ar strategaeth glir ynglŷn â sut allwch chi wireddu hynny;
- Oes gennych gysylltiadau yn y diwydiant yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Gall cwmnïau sydd eisoes wedi derbyn arian gennym wneud cais am nawdd pellach, cyn belled a'u bod yn medru dangos sut fyddai'r arian yn cefnogi datblygiad amlwg y cwmni, naill ai drwy gynyddu'r datblygiadau sydd eisoes wedi cychwyn yn sgil nawdd o gronfa Cefnogi Cwmni, neu drwy ddatblygu cyfleoedd newydd. Dylai'r ymgeiswyr hyn hefyd ufuddhau'n llwyr i delerau cytundebol y dyfarniadau maent eisoes wedi eu derbyn.

AM BETH ALLAI YMGEISIO?

Gall ymgeiswyr Haen 1 ymgeisio am hyd at £6,000 tuag at fentoriaeth a/neu ymgynghoriad yn y meysydd canlynol: strategaeth busnes, strategaeth marchnata, materion cyfreithiol, arweiniad a rheolaeth. Disgwyliwn y bydd y dyfarniadau terfynol rhwng £2,000 a £6,000.

Dylai ymgeiswyr Haen 1 adnabod mentoriaid a/neu gwmnïau perthnasol ac addas gallai eu cynghori neu eu mentora ac sy'n berchen ar syniad o'r costau cysylltiedig, ond nid oes raid iddynt fod wedi ymrwymo i unrhyw unigolyn neu gwmni ar adeg cyflwyno'r cais. Nid oes yn rhaid i'r mentoriaid fod â blynyddoedd yn hwy o brofiad na chi, ond dylech fod yn medru dangos sut allant eich cynorthwyo i gyrraedd y cam nesaf yn natblygiad eich busnes.

Gall ymgeiswyr Haen 2 ymgeisio at hyd at £75,000 ond disgwyliwn i'r dyfarniadau terfynol fod rhwng £25,000 a £75,000; 'rydym yn eich annog i ofyn am swm sy'n gyfesur â'ch ffilm, neu unrhyw fusnes sy'n gysylltiedig â'r ffilm.

Nod y gronfa hon yw hybu potensial twf y cwmni'n gyffredinol. Mae'r isod yn darparu rhywfaint o arweiniad ar yr hyn gall ymgeiswyr Haen 2 wneud cais amdano:

- Strategaethau i wella cylchrediad asedau tu hwnt i gwmpas yr hyn sy'n cael ei gyflenwi gan arian prosiect ffilm arferol, e.e. arian Y&D i fodelau busnes amgen a marchnadoedd newydd;
- Cynyddu adnoddau dynol mewn meysydd nad ydynt yn cael eu cyflenwi'n ddigonol yn y cwmni ar hyn o bryd;
- Datblygu asedau digidol ar gyfer marchnata a/neu ddatblygu ecsploetiaeth ED pellach sy'n berthnasol i asedau ffilm y cwmni, fel creu cyfresi, cyhoeddi deunydd, addasiad llwyfan ac apps.

SUT ALLAI YMGEISIO?

Er mwyn gwneud cais am arian bydd raid i chi lawr lwytho'r ffurflen gais o'n gwefan.

Mae cyfres o gwestiynau ar y ffurflen gais ynglŷn â'ch cwmni sy'n ein galluogi i ddeall yn well eich gweledigaeth ar gyfer eich cwmni, pa mor hyfyw yw'r cwmni, yn ogystal â beth yw manteision y cwmni i Gymru ac i dalent Cymreig. 'Rydym yn derbyn llawer mwy o geisiadau nag y gallwn eu cefnogi, felly fe'ch cynghorwn i sicrhau bod eich cais yn un arbennig iawn.

Bydd gofyn i ymgeiswyr Haen 1 hefyd gyflwyno'r canlynol:

- CVs ar gyfer gweithlu'r cwmni (gan gynnwys gweithwyr preswyl, rhan-amser, perchnogion a gweithwyr cyflogedig eraill);
- Unrhyw gytundebau ariannu eraill sydd eisoes yn weithredol, sy'n berthnasol i'r cwmni;
- Cyfrifon diweddaraf y cwmni;
- Rhagamcan o lif arian, incwm a gwariant y cwmni;
- Rhestr gredyd fanwl ar gyfer yr holl waith sydd wedi ei gwblhau, gydag unrhyw gredyd penodol sy'n berthnasol i'r cwmni, yn ogystal â throsolwg o'r llechen bresennol (ar draws pob ffurf cyfryngol a chelfyddydol);
- Trosolwg o berthnasau allweddol y cwmni (ar draws gwerthiant, dosbarthu, talent, criw a chyd-weithwyr eraill).

Bydd gofyn i ymgeiswyr Haen 2 gyflwyno'r uchod gyda'u cais yn ogystal â:

- Cyllideb y cwmni ar gyfer y flwyddyn/blynyddoedd perthnasol, gan ddangos yn glir ble 'rydych am ddefnyddio'r arian yr ydych yn gofyn amdano;
- Cynllun busnes 3-mlynedd o leiaf.

Bydd gofyn i bob ymgeisydd hefyd yrru Polisi Cynaladwyedd eu cwmni, os yw ar gael.

Ni fydd eich cais yn gyflawn hyd nes bydd yr holl eitemau hyn wedi eu cyflwyno.

Mae'n well cyflwyno unrhyw ddogfennau cefnogol fel un cyswllt storfa ar-lein, gan amlygu hyn ar eich ffurflen gais, yn hytrach na fel atodiadau unigol. Nid oes raid i Ffilm Cymru ddarllen nag ystyried y dogfennau sy'n berthnasol i geisiadau anghyflawn, neu geisiadau nad ydynt yn gymwys, nag unrhyw ddogfennau na ofynnwyd amdanynt.

MANYLION Y GYLLIDEB

Cofiwch ystyried y rhain wrth i chi gwblhau'r ffurflen gais:

- Gall ymgeiswyr Haen 1 wneud cais am nawdd tuag at fentoriaeth a/neu arbenigedd ymgynghorol yn unig;
- Gall ymgeiswyr Haen 1 ymgeisio am hyd at £6,000;
- Gall ymgeiswyr Haen 2 ymgeisio am hyd at uchafswm o £75,000;
- Mae arian Cefnogi Cwmni Ffilm Cymru yn cael ei gynnig ar sail de minimis; rhaid i chi gofnodi unrhyw gymorth de minimis mae eich cwmni wedi ei gael, a rhoi gwybod i gyrff sy'n dyrannu nawdd faint o gymorth de minimis 'rydych wedi ei dderbyn os ydynt yn gofyn am y wybodaeth honno. Am ragor o wybodaeth am nawdd de minimis a chymorth gwladwriaethol cliciwch yma;

- Nid oes rhaid talu ad-dalu dyfarniadau Haen 1;
- Benthyciadau di-log yw dyfarniadau Haen 2 (gweler isod);
- Fel arfer telir dyfarniadau mewn 2 rhandal;
- Ad-delir dyfarniadau Haen 2 fel a ganlyn: rhaid ad-dalu 25% o'r dyfarniad fesul rhandal cyfartal bob mis am 24 mis, gan ddechrau 6 mis wedi i'r dyfarniad gael ei dalu allan yn llawn. Rhaid ad-dalu'r 75% sy'n weddill o'r cynnydd wneir ar yr elw (fel y gwelir ar y cyfrifon rheoli blynyddol a statudol) o ddyddiad llofnodi'r cytundeb ariannu ar raddfa o 20% o gynnydd o'r fath. Fe ad-delir y dyfarniad o holl asedau eiddo deallusol creadigol y cwmni (gan gynnwys ffilm, teledu, gemau, unrhyw ddeunydd a gyhoeddir a chyfryngau eraill) os defnyddiwyd yr arian yn arbennig ar gyfer y gweithgaredd arbennig hwn ai pheidio, neu os oedd y cwmni'n arwain neu'n cyd-arwain ar y gwaith cynhyrchu ai pheidio.
- Ni all Ffilm Cymru roi arian ôl-weithredol ar gyfer costau sydd eisoes wedi eu gwneud, a dylech sicrhau fod pob eitem llinell yn y gyllideb yn synhwyrol. Er enghraifft, ni allwn gefnogi teithio yn y dosbarth cyntaf neu lety moethus, lletygarwch na chynhaliaeth gyffredinol.

CYFLWYNO'R CAIS

Dylech e-bostio eich ffurflen wedi ei chwblhau at applications@ffilmcymruwales.com erbyn 5:30pm yr 28ain Chwefror 2019.

BETH SY'N DIGWYDD UNWAITH I MI GYFLWYNO FY NGHAIS?

Byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau hyn o fewn wythnos i ddyddiad cau'r cais. Bydd yr e-bost hwn yn cynnwys rhif cyfeirnod a dolen at ein Ffurflen Monitro EDI (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad). Mae'n rhaid i bob aelod o weithlu cyfredol eich cwmni (os yn aelod preswyl neu'n sylfaenydd cwmni) gwblhau'r ffurflen hon cyn y gellir asesu eich cais. Mae dewis 'gwell gennyf beidio dweud' ar gyfer pob cwestiwn.

Os nad yw eich cais yn gyflawn, neu os yw'n aneglur, yna byddwn yn eich hysbysu na fydd eich cais yn symud ymlaen i'r cam asesu.

Os nad yw eich cais yn gyflawn oherwydd bod camgymeriadau ynddo, yna byddwn yn gyrru amserlen atoch i roi cyfle i chi ei gywiro cyn ei symud ymlaen i'r cam asesu.

Os yw eich cais yn gyflawn ac yn gymwys i'w ariannu, yn unol â'r meini prawf uchod, yna bydd eich cais yn symud ymlaen i'r cam aeseu.

MEINI PRAWF

Asesir ceisiadau Haen 1 yn unol â'r Meini Prawf canlynol:

- Gallu'r ymgeisydd i adeiladu cwmni hyfyw, yn hytrach na chreu cynnwys yn unig;
- Manteision posib y cwmni i Gymru a thalent o Gymru;
- Profiad personèl allweddol y cwmni;
- Addewid creadigol a masnachol y prosiectau sydd ar llechen y cwmni;
- Cryfder y perthnasau/cysylltiadau sy'n cael eu datblygu gan y cwmni;
- Dealltwriaeth yr ymgeisydd o'r farchnad ehangach y mae'n ymwneud â hi, a'r llwybrau perthnasol i'r farchnad honno;
- Awydd yr ymgeisydd i archwilio eu syniadau, i adeiladu eu cynulleidfaoedd yn uniongyrchol, ac i ecsbloetio gwerth ychwanegol yr eiddo deallusol (ED) (e.e. gemau/unrhyw ddeunydd ychwanegol a gyhoeddir, ecsbloetio hawliau'r fformat ayb.) sy'n berthnasol i'w llechen, eu harbenigedd a/neu eu rhwydweithiau;
- Amrywiaeth personèl allweddol y cwmni, a gweithgaredd y cwmni yng nghyd-destun ein Cynllun Gweithredu EDI;
- Pa mor gymwys yw'r cwmni i dderbyn Cefnogaeth y Loteri Genedlaethol (gweler Telerau'r Loteri sydd wedi eu hatodi);
- Balans cyffredinol ein buddsoddiadau.

Bydd ceisiadau Haen 2 hefyd yn cael eu hasesu yn sgil:

- Potensial y cwmni i wella gallu cynhyrchu eu busnes a photensial y cwmni i dyfu;
- Pa mor hyfyw yw Cynllun Busnes y cwmni a'r cynllun y gofynnir am arian amdano;
- Pa mor galed mae'r cwmni wedi gweithio i archwilio'r gallu i gynhyrchu arian o asedau ffilm cyfredol y cwmni, drwy greu cyfresi efallai, neu gyhoeddi deunydd, neu greu addasiad llwyfan neu apps digidol.
- Bydd y broses asesu hefyd yn ystyried sut mae'r ymgeisydd a/neu'r cwmni wedi rheoli unrhyw nawdd blaenorol gafwyd gan Ffilm Cymru.

Efallai bydd Ffilm Cymru yn defnyddio aseswyr allanol wrth asesu ceisiadau.

Gall Ffilm Cymru ofyn i chi am ragor o wybodaeth neu ddeunyddiau.

Y RHESTR FER

Bydd y ceisiadau Cefnogi Cwmni am lai na £25,000 yn cael eu hasesu gan y Prif Weithredwr, y Pennaeth Busnes Creadigol a Rheolwr Rhwydwaith Talent Cymru'r BFI, a byddant yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan o leiaf 3 aelod o'r bwrdd, gyda phenderfyniad y mwyafrif yn trechu.

Bydd y ceisiadau Cefnogi Cwmni am £25,000 neu fwy yn cael eu hasesu gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Busnes Creadigol. Bydd eu hasesiad yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan is-bwyllgor quorate o'r bwrdd a'i gyflwyno i'r bwrdd cyfan, gyda phenderfyniad y mwyafrif yn trechu.

Bydd pawb sydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am gyfweliad gyda Ffilm Cymru o fewn chwe wythnos o ddyddiad cau cyflwyno'r ceisiadau. Dylai pob aelod o'r cwmni sy'n ymwneud â'r cais fynychu'r cyfweliad. Mae hwn yn gyfle i ni drafod a'ch holi'n fanylach am eich cais am arian. Efallai byddwn yn gofyn i chi ddatblygu rhai o'ch syniadau ymhellach, neu i ateb cwestiynau penodol am y cais cyn i chi ddod i'r cyfweliad.

Unwaith i'r gwaith asesu gael ei gwblhau, bydd ymgeiswyr yn cael gwybod os ydynt wedi llwyddo o fewn wyth wythnos i ddyddiad cau cyflwyno'r ceisiadau.

Mae penderfyniadau'r panel yn derfynol.

ADBORTH

Oherwydd ein bod yn derbyn cynifer o geisiadau, nid oes gan Ffilm Cymru'r adnoddau i ddarparu adborth ar geisiadau nad ydynt yn cyrraedd y rhestr fer.

Yn yr achosion yma byddwch yn derbyn e-bost safonol yn gwrthod eich cais.

Os ydym wedi cynnwys eich cais ar y rhestr fer yna byddwn yn darparu adborth byr, os byddwch yn gofyn amdano. Nid oes raid i'r ymgeisydd ymateb yn ymarferol i'r adborth, ac nid yw gwireddu'r adborth yn warant y byddwch yn derbyn arian yn y dyfodol.

AIL-GYFLWYNO

Ni ellir ail-gyflwyno ceisiadau sydd wedi eu gwrthod tan fydd y cylch nesaf o arian Cefnogi Cwmni yn cael ei gyhoeddi, ac ni ellir eu hail-gyflwyno heb iddynt gael eu cymeradwyo o flaen llaw gan Ffilm Cymru. Dylai unrhyw gais sy'n cael ei ail-gyflwyno ddangos newidiadau sylweddol: er enghraifft, cynllun busnes newydd neu weithgaredd busnes newydd.

AMSERLEN

1 wythnos wedi dyddiad cau cyflwyno'r cais:	E-bost yn cydnabod i chi ymgeisio.
6 wythnos wedi dyddiad cau cyflwyno'r cais:	Eich hysbysu am y penderfyniad bod eich cais wedi ei gynnwys ar y rhestr fer, neu wedi ei wrthod.
8 wythnos wedi dyddiad cau cyflwyno'r cais:	Eich hysbysu am y penderfyniad i gynnig arian i chi, neu i'ch cais gael ei wrthod.

BETH SY'N DIGWYDD OS FYDDAI'N LL-WYDDO?

Os yw eich cais yn llwyddo, yn y lle cyntaf byddwch yn derbyn llythyr o gynnig. Mae Ffilm Cymru yn cadw'r hawl i gynnig llai o arian nag y gofynnoch amdano, neu i addasu'r modd 'rydym yn dyrannu ein nawdd fesul eitem llinell, mewn ymgynghoriad â chi.

Nid cefnogaeth ariannol yn unig mae Ffilm Cymru yn ei gynnig. 'Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a chyngor. Fel rhywun fydd yn elwa ar gefnogaeth i'ch cwmni, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfleoedd hyfforddiant perthnasol, am ddim, a phan yn addas, byddwch yn gofyn i chi rannu rhywfaint o'r hyn 'rydych wedi ei ddysgu gyda'r genhedlaeth nesaf o entrepreneurs ffilm yng Nghymru. Bydd gofyn i chi adrodd yn ôl i ni ar unrhyw gynnydd byddwch yn ei wneud sy'n berthnasol i'r dyfarniad, ac ar unrhyw newidiadau i strwythur neu weithgaredd eich cwmni.

LLYTHYR O GYNNIG

Cynigir eich dyfarniad fesul rhandaliad yn unol â dyddiad dechrau a dyddiad cwblhau elfennau penodol o'r prosiect.

Bydd y manylion am y rhandaliadau hyn yn eich llythyr o gynnig, yn ogystal ag amserlen i chi anelu at ei gweithredu. Eich cyfrifoldeb chi yw gwireddu'r rhain o fewn y dyddiadau penodedig.

Fel arfer, fe ail-gylchir eich dyfarniad ar ôl chwe mis os na fydd yr arian wedi dechrau cael ei dynnu i lawr o fewn y cyfnod hwnnw.

CYTUNDEB FFURF-HIR

Unwaith i'ch llythyr o gynnig gael ei dderbyn, bydd gofyn i chi arwyddo cytundeb ffurf-hir gyda Ffilm Cymru sy'n cynnwys yr holl delerau ac amodau sy'n berthnasol i'n cronfa Cefnogi Cwmni. Bydd yr amgylchiadau hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cyflwyno Memorandum ac Erthyglau Cysylltiol eich cwmni;
- Cyflwyno manylion cyfrif banc eich cwmni;
- Telerau ad-dalu (Dyfarniadau Haen 2);
- Talu sylw perthnasol i Ffilm Cymru gan gynnwys logos Ffilm Cymru a'r Loteri Genedlaethol;
- Datblygu ac adrodd yn erbyn y Cynllun EDI gwreiddiol a amlinellwyd yn eich cais;
- Adrodd yn erbyn y cynllun Cefnogi Cwmni ac unrhyw newidiadau allweddol i weithgaredd neu broffil eich cwmni;
- Cyflwyno cyfrifon y cwmni i Ffilm Cymru ar gyfer cyfnod y dyfarniad;
- Ymrwymo i gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi Ffilm Cymru, ble fo hynny'n berthnasol ac yn ofynnol, a rhannu gwybodaeth sensitif nad yw'n fasnachol gyda thalent a pherchnogion busnes ffilm arfaethedig yng Nghymru;
- Ffi gweinyddol o 2% o'r dyfarniad yn daladwy i Ffilm Cymru o'r rhandaliad cyntaf;
- Darpariaethau terfynu safonol.

MANYLION CYSWLLT

Os hoffech ofyn unrhyw gwestiwn sy'n berthnasol i'r canllawiau hyn, cysylltwch ag applications@ffilmcymruwales.com neu ffoniwch 02921 679369 a gofynnwch am gael siarad â'r Pennaeth Busnes Creadigol, Kimberley Warner.

AMODAU CYFFREDINOL ARIAN LOTERI FFILM CYMRU

1. Gall y wybodaeth yn y canllawiau yma newid. Gall y gyfraith a rheoliadau'r Llywodraeth ar ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol newid hefyd. Felly, mae Ffilm Cymru yn cadw'r hawl i adolygu'r cynllun ariannu hwn a/neu newid ei bolisïau, gweithdrefnau a meini prawf.
2. Nid yw'r ffurflen cais o anghenraid yn cynnwys yr holl wybodaeth mae Ffilm Cymru'n ei defnyddio i benderfynu pa geisiadau i'w hariannu. Gall Ffilm Cymru ofyn i ymgeiswyr am wybodaeth ychwanegol.
3. Cyfrifoldeb pob ymgeisydd yw ei gais/chais. Ni fydd Ffilm Cymru yn atebol am unrhyw golled, difrod na chostau all godi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o:
    - y broses ymgeisio;
    - benderfyniad Ffilm Cymru i gynnig dyfarniad i ymgeisydd; neu
    - ymdriniaeth â'r cais
4. Byddwch mor garedig â gwirio'ch ffurflen gais yn ofalus. Ni fydd Ffilm Cymru yn prosesu ceisiadau sy'n anghyflawn neu nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn.
5. Mae penderfyniadau Ffilm Cymru ar geisiadau yn derfynol.
6. Ni fydd Ffilm Cymru yn talu unrhyw arian nes iddynt dderbyn copi cyflawn o'r cytundeb ariannu ffurf-hir ac unrhyw rag-amodau i'r cytundeb sydd wedi eu bodloni neu eu hepgor gan Ffilm Cymru.
7. Bydd Ffilm Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth am faint o geisiadau maent wedi eu derbyn a'r dyfarniadau a wnaethpwyd. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys enw'r ymgeisydd llwyddiannus, maint y dyfarniad, enw'r prosiect a manylion y prosiect.
8. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i aelodau o'r cyhoedd ofyn am wybodaeth benodol sy'n cael ei chadw yng nghyswllt rhaglenni a chynlluniau Loteri Genedlaethol Ffilm Cymru. Felly, os ydych yn dewis gwneud cais i Ffilm Cymru dylech fod yn ymwybodol y gall y wybodaeth 'rydych yn ei gyrru, yn rhannol neu'n gyflawn, gael ei rhannu yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
9. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir i Ffilm Cymru yn cael ei thrin yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, a'r holl ddeunydd cyfreithiol ategol sy'n ymwneud â diogelu data. Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei darparu'n cael ei defnyddio i asesu eich prosiect, i gyflawni cytundeb ariannol gyda Ffilm Cymru, i adrodd i'ch budd-ddeiliaid a/neu i gydymffurfio â'r gyfraith yn ehangach. Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth a gedwir gan Ffilm Cymru. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i Ffilm Cymru gywiro unrhyw gamgymeriadau sydd yn eich gwybodaeth. Gallwch ddarllen ein polisi Preifatrwydd yma.
10. Bydd yr holl wybodaeth bersonol sensitif a ddarperir i Ffilm Cymru, ffurflenni monitro EDI er enghraifft, yn cael eu cadw ar gyfrifiadur ar ffurf anhysbys am ddwy flynedd, a gellir ei defnyddio ar gyfer dibenion ystadegol wedi hynny.
11. Mae gan Ffilm Cymru'r hawl i wrthod neu adfer unrhyw ddyfarniad os na chafodd y ffurflen gais ei llanw'n gywir, neu os yw'n cynnwys gwybodaeth anghywir neu sy'n gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect, yn fwriadol neu'n ddamweiniol; a/neu fod derbynydd y dyfarniad yn gweithredu'n anonest neu'n esgeulus, allai fod yn anfanteisiol i'r prosiect. Bydd Ffilm Cymru yn ymchwilio i bob achos o dwyll honedig a'n trosglwyddo'r wybodaeth i'r heddlu.
12. Mae Ffilm Cymru'n gofyn bod unrhyw fesurau a gymerir gan ymgeiswyr i gyfeirio at dan-gynrychiolaeth yn cydymffurfio'n llwyr â Deddf Cydraddoldeb 2010.
13. Ni fydd apeliadau ffurfiol yn erbyn y penderfyniad terfynol ar y cais am nawdd yn cael eu hystyried os na fydd gan yr ymgeiswyr reswm da i gredu na lynwyd at y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd i brosesu'r cais, neu iddynt gael eu defnyddio mewn modd fu'n anfanteisiol i ganlyniad y cais. Mae copi o'n Gweithdrefnau Adborth & Chwyno ar gael ar ein gwefan.
14. Rhaid i bob ymgeisydd ddatgan pob gwrthdaro o ran diddordeb yn eu cais- er enghraifft, os oes aelod o staff Ffilm Cymru yn ymwneud â'r cwmni neu un o'i brosiectau, yna rhaid hysbysu Ffilm Cymru.
15. Mae Ffilm Cymru yn gofyn i'w holl bartneriaid, a phawb sy'n derbyn arian ganddynt, i dynnu sylw at y Loteri Genedlaethol drwy hyrwyddo ac arddangos logo'r Loteri Genedlaethol yn ogystal â logo Ffilm Cymru, a thrwy gydnabyddiaeth lafar ac ysgrifenedig a gytunwyd arno.

ffilm
CYMRU WALES

UNED 6
TRAMSHED TECH
STRYD PENDYRIS
CAERDYDD
CF11 6BH

+44(0)2921 679369

enquiries@ffilmcymruwales.com
www.ffilmcymruwales.com

BFI Film Forever
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government